Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Rheoli gwrthdaro buddiannau posibl yn gysylltiedig â gwaith arolygu

## Medi 2017

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**1 Cyflwyniad** **1**

Egwyddorion
Pam rheoli gwrthdaro buddiannau?

**2 I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?** **2**

**3 Beth sy'n cael ei ystyried yn wrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â gwaith arolygu?** **2**

Rheolau hepgor

**4 Cyfrifoldeb arolygydd i ddatgan hepgoriadau** **3**

Pryd dylai arolygydd ddatgan hepgoriad?
Sut i ddatgan hepgoriad


| **Rheoli fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| V1 | Hydref 2012 | Phil Sweeney | Fersiwn cychwynnol |
| V2 | Gorffennaf 2014 | Lisa Jordaan | Diwygiadau i'r tabl hepgoriadau a diweddariad cyffredinol |
| V3 | Mai 2017 | Lisa Jordaan | Diweddaru'r polisi at ddefnydd arolygwyr yn unig a diweddariadau i'r tabl hepgoriadau. |

# 1 Cyflwyniad

**Egwyddorion**

1.1 Mae Estyn yn disgwyl i unrhyw un sy'n cael ei gyflogi gan y sefydliad, wedi dod i gytundeb â'r sefydliad neu'n gweithio ar ran y sefydliad, arddangos y gwerthoedd canlynol:

- uniondeb
- anhunanoldeb
- atebolrwydd
- didwylledd
- gonestrwydd
- gwrthrychedd
- amhleidioldeb
- arweinyddiaeth

1.2 Ni ddylai pobl sy'n gweithio i Estyn neu ar ran Estyn roi eu hunain nac Estyn mewn sefyllfa lle y gellid rhoi'r argraff bod gwaith, perthnasoedd personol neu fuddiannau preifat blaenorol unigolyn yn tanseilio'r gwerthoedd hyn. Felly, rhaid i bawb y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt gynnal ymrwymiad proffesiynol i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl wrth gyflawni gwaith i Estyn, a rhaid iddynt gadw at yr amodau neu fesurau a roddir ar waith i gynnal enw da'r unigolyn, yn ogystal â ffydd y cyhoedd yng ngwaith Estyn.

**Pam rheoli gwrthdaro buddiannau?**

1.3 Mae nodi a datrys sefyllfaoedd o wrthdaro buddiannau yn hanfodol i lywodraethu da a chynnal ffydd yn uniondeb arolygiadau Estyn. I arolygydd, gall achos ymddangosiadol o wrthdaro buddiannau fod mor ddifrifol â bod ag achos o wrthdaro gwirioneddol, oherwydd y posibilrwydd o godi amheuaeth am uniondeb yr arolygydd.

1.4 Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut bydd Estyn yn rheoli gwrthdaro buddiannau posibl ac yn lleihau'r risg y bydd amgyffrediad o duedd yn gysylltiedig â gwaith arolygu. **Dylid** datgelu a chofnodi pob gwrthdaro a gwrthdaro posibl, boed yn wrthdaro gwirioneddol neu'n amgyffrediad o wrthdaro, cyn gynted â phosibl a **rhaid** eu datgelu cyn bod Estyn yn cadarnhau y bydd unigolyn yn cael ei ddefnyddio mewn arolygiad. Os bydd gan arolygydd unrhyw amheuon neu os bydd angen rhagor o gyngor arno, dylai gysylltu ag Estyn cyn gynted ag y daw i wybod am y gwrthdaro posibl.

1.5 Pan fydd darparwr yn rhoi gwybod i Estyn am wrthdaro buddiannau posibl, e.e. pan fydd manylion y tîm arolygu'n cael eu rhoi i'r darparwr, bydd Estyn yn trafod y mater â'r arolygydd perthnasol.

## 2 I bwy mae’r polisi hwn yn berthnasol?

2.1 Mae’r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn y mae Estyn yn disgwyl iddynt ymgymryd â gwaith arolygu ar ran yr arolygiaeth, neu’n rhagweld y byddant, gan gynnwys:

- cyflogeion a secondeion Estyn (darpar gyflogeion a secondeion, a rhai sydd wedi’u penodi)
- arolygwyr ychwanegol, gan gynnwys arolygwyr cofrestredig, tîm a lleyg
- arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ymgynghorwyr her
- aelodau staff gwasanaethau corfforaethol Estyn sy’n cael hyfforddiant ar gyfer rôl arolygydd lleyg

2.2 Mae’n ofynnol i’r holl staff ac arolygwyr sy’n gweithio i Estyn gynnal cyfrinachedd priodol o ran gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi am arolygiadau.

## 3 Beth sy’n cael ei ystyried yn wrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â gwaith arolygu?

3.1 Yn gyffredinol, pan fydd gan arolygydd fuddiant cyflogaeth, perthynas bersonol neu fuddiant preifat presennol neu flaenorol diweddar sy’n gysylltiedig â darparwr penodol, bydd gwrthdaro buddiannau posibl. Bydd y ‘rheolau hepgor’ canlynol yn cael eu rhoi ar waith wrth wneud penderfyniadau ynghylch defnyddio arolygydd mewn arolygiad gan Estyn. Fodd bynnag, dylai pob arolygydd ddefnyddio’i grebwyll proffesiynol i nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sydd heb ei gynnwys gan y rheolau hepgor canlynol. Er enghraifft, efallai bydd arolygydd wedi gadael swydd gyflogedig gyda darparwr penodol ers mwy na thair blynedd, ond gallai deimlo y byddai cyfnod hepgor hwy yn fwy priodol.

3.2 Rheolau sy'n gwahardd defnyddio yn ystod arolygiad oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl:

**Wedi'i gyflogi gan gonsortia addysg**
Os yw **arolygydd** yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd neu wedi gweithio o'r blaen i'r darparwr (gan gynnwys gweithio mewn rôl ymgynghorol/cynghori, e.e. o dan gontract am wasanaethau) o fewn y **ddwy** flynedd flaenorol, bydd yr arolygydd yn cael ei atal rhag arolygu y darparwr a'r awdurdodau lleol cysylltiedig .

**Cyflogedig gan y darparwr**
Os bydd yr **arolygydd** yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd neu wedi gweithio o'r blaen i'r darparwr (gan gynnwys gweithio mewn rôl ymgynghorol/cynghori, e.e. o dan gontract am wasanaethau) o fewn y **tair** blynedd flaenorol, fydd atal erbyn y darparwr a'r awdurdod lleol cysylltiedig ei.

**Aelod o'r teulu a gyflogir neu sy'n ymwneud â darparwr**
Os yw **aelod o'r teulu*** yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd neu sydd wedi gweithio i'r darparwr yn flaenorol (gan gynnwys gweithio mewn rôl ymgynghoriaeth / ymgynghorol, ee dan gontract ar gyfer gwasanaethau), cyfraniad cymdeithasol neu

broffesiynol uniongyrchol ym materion Y darparwr, ee Wedi bod neu wedi bod yn ddisgybl / myfyriwr, llywodraethwr, cynghorydd neu gontractwr o fewn y **dau** blynyddoedd blaenorol, bydd yr ataliad yn erbyn y darparwr.

**Cyfraniad cymdeithasol neu broffesiynol gyda darparwr**
Os oes gan yr **arolygydd** cymdeithasol neu broffesiynol ymwneud yn uniongyrchol y materion y darparwr, e.e. neu a fu disgybl/myfyriwr, llywodraethwr, cynghorydd neu gontractwr o fewn y **tair** blynedd flaenorol, fydd atal erbyn y darparwr.

* Diffinnir 'aelodau'r teulu' fel rhiant, brawd neu chwaer, priod / partner a / neu blentyn. Ac eithrio perthnasau sy'n ymgymryd â chyfnodau o waith cyflenwi achlysurol byrdymor mewn ysgol neu sydd â chysylltiadau achlysurol iawn gydag ysgol, er enghraifft, yn gweithredu fel aelod o theatr mewn grŵp addysg neu ddarparu sesiwn hyfforddi mewn gweithgareddau chwaraeon neu greadigol.

## 4 Cyfrifoldeb arolygydd i ddatgan hepgoriad o arolygiad

**Pryd dylai arolygydd ddatgan hepgoriad o arolygiad?**

4.1 Mae'n ofynnol i holl arolygwyr Estyn, fel y'u nodir ym mharagraff 2.1, ddatgan unrhyw hepgoriadau cyn gynted ag y gallant. Ni ddylai arolygwyr aros hyd nes cânt eu defnyddio cyn datgan unrhyw newidiadau i'w hepgoriadau, oherwydd o ganlyniad i hyn, gallai fod angen i Estyn chwilio am arolygwyr newydd ar fyr rybudd, gan achosi tarfu diangen a gwaith gweinyddol ychwanegol. Os daw arolygydd i wybod am hepgoriad neu wrthdaro posibl arall pan gaiff hysbysiad o'i ddefnyddio yn unig, mae'n hanfodol ei fod yn rhoi gwybod i Estyn ar unwaith.

**Sut i ddatgan hepgoriad**

4.2 Mae'n rhaid i arolygwyr unigol gofnodi gwybodaeth am hepgoriadau yng nghofnod eu Proffil Arolygydd. Mae gwybodaeth ym Mhroffil Arolygydd wedi'i chysylltu â system gynllunio arolygu a defnyddio Estyn, sy'n cymharu manylion yr arolygydd â manylion y darparwr a'r rheolau hepgor er mwyn amlygu achos sydd wedi'i hepgor.

4.3 Felly, mae'n bwysig bod arolygwyr yn diweddaru cofnod eu Proffil Arolygydd gan roi'r holl wybodaeth am hepgoriadau a gwybodaeth arall, e.e. manylion cyswllt/personol, wrth iddi newid. Os nad oes modd mynd at system y Proffil Arolygydd, cysylltwch ag Estyn drwy'r e-bost neu dros y ffôn am gymorth.

4.4 Gallwch ddefnyddio'r dolenni canlynol i fynd at system Proffiliau Arolygwyr a'r Cyflwyniad i Broffiliau Arolygwyr. Gofynnir i arolygwyr gadarnhau eu bod wedi gwirio a diweddaru eu Proffil Arolygydd cyn cael eu defnyddio mewn arolygiad.

4.5 Dylai Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract sicrhau bod eu hepgoriadau yn gyfredol pan fyddant yn cyflwyno tendrau am gontractau arolygu. Un o ofynion derbyn contract (pan fydd manylion arolygiad ac enw'r darparwr yn cael eu rhoi i'r contractwr) fydd yr angen i Arolygydd Ychwanegol dan Gontract gadarnhau nad oes unrhyw hepgoriad a ddylai fod yn berthnasol i'r arolygiad. Mae amodau contract ar

gyfer arolygwyr ychwanegol i'w gweld ar wefan Estyn: Arolygwyr Cofnodol / Arolygwyr ychwanegol a thîm.

4.6 I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiad am y polisi hwn, cysylltwch â Thîm Cynllunio Estyn dros y ffôn (02920 446305) neu drwy'r e-bost: cynllunio@estyn.llyw.cymru